Astudiaeth achos:
Grant Adnewyddu Menter

Rhanbarth
Sir Ddinbych

Sector
Twristiaeth

Gwerth y prosiect
£5,264

ANTUR RUTHIN

Bu'n rhaid i gwmni antur symud yn gyflym i osod yr orsaf llenwi ag aer gyntaf un ar lan y dŵr ar gyfer padlfyrddau.

Nid yw pob busnes bach yn cael cyfle i arloesi mewn diwydiant hynod gystadleuol. Felly, pan welwch chi gyfle mawr, mae angen i chi weithredu'n gyflym.

Roedd grant Adnewyddu Menter yn galluogi Arwel Phillips o gwmni antur awyr agored Antur Rhuthun i wneud hynny. Ei gynllun oedd manteisio ar y twf enfawr mewn padlfyrddio sefyll a oedd yn cael ei yrru gan bandemig Covid-19.

Roedd wedi gweld camlesi, afonydd a llynnoedd Gogledd Cymru yn llawn pobl yn lansio eu padlfyrddau eu hunain – y rhan fwyaf ohonynt yn rhai y gellir eu llenwi ag aer. Ond nid oedd llawer yn cael eu pwmpio i'r pwysedd iawn.

"Mae'r rhan fwyaf o padlfyrddau'n dod gyda phwmp siambr sengl neu ddwbl a gallant gymryd mwy na 10 munud i'w llenwi i'r psi cywir," eglura Arwel. "Fe welwch chi gymaint o bobl ar lan y llyn yn pwmpio, yn cyrraedd hanner y pwysedd a argymhellir ac yn rhedeg allan o wynt. Maen nhw'n mynd allan i'r llyn ac mae fel padlo banana.

"Mae yna bympiau trydan hefyd sy'n cysylltu â cheir ond maen nhw'n ei chael hi'n anodd pwmpio nifer o badlfyrddau yn syth ar ôl ei gilydd, maen nhw'n swnllyd iawn ac nid ydyn nhw'n ddibynadwy iawn. Roedd yn rhaid cael ffordd well."

Gan weithredu ar ran y ganolfan addysg awyr agored lle mae'n gweithio, gofynnodd Arwel i gwmni technoleg aer gyflenwi cywasgydd fel a geir mewn cwrt blaen garej. Dywedasant wrtho nad oedd cynnyrch o'r fath yn bodoli – ond gyda'i arweiniad arbenigol yr oeddent yn hapus i wneud un. Mae'r canlyniad yn ddyfais gwbl unigryw: gorsaf llenwi ag aer SUP talu wrth y pwmp sy'n sicr o chwythu eich bwrdd i'r union bwysedd iawn, bob tro.

Mae eisoes wedi ennill ardystiad un o wneuthurwyr padlfyrddau mwyaf y byd, sydd wedi caffael 50 o'r unedau arloesol. Ond Arwel oedd y cyntaf drwy ei ficrofusnes Antur Rhuthun.

Helpodd ei grant Adnewyddu Menter ef i brynu pwmp, ynghyd â gliniadur i reoli'r trafodion ar-lein, a'i osod yn Llyn Alderford, sy'n boblogaidd iawn, ger Whitchurch. Erbyn hyn, mae'n edrych ar 10 lleoliad arall a ddewiswyd yn ofalus ar lan y dŵr yn y flwyddyn gyntaf.

"Roedd amser yn allweddol," meddai Arwel. "Fe wnaeth fy swydd unigryw a'm perthynas â'r gwneuthurwr roi cychwyn da i mi sicrhau lleoliadau a chontractau gwerthu. Roedd y grant yn swm enfawr – cyfle i gael rhywbeth allan yno a oedd yn hollol wahanol. Mae wedi bod yn wych."

CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas
LEADER
Llywodraeth Cymru
Welsh Government